

# Cyflwyniad

gan y Prif Swyddogion Cyllid



Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn rôl Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Rydym yn chwilio am arweinydd deinamig, brwdfrydig, ymroddedig a phrofiadol ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Mae'r gwasanaeth yn wasanaeth a rennir ac yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer Cyngorau Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg ac mae'n cael ei gynnal gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r trefniadau a rennir yn galluogi'r defnydd o adnoddau arbenigol fel archwiliad TGCh ac adolygiadau traws-gyngor.

Y weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yw bod yn ddarparwr gwasanaethau archwilio mewnol o ddewis i'r sector cyhoeddus yn Ne Cymru, i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer archwilio mewnol y sector cyhoeddus ac i fod yn wasanaeth sy'n cael ei ystyried yn broffesiynol, hawdd mynd ato ac annibynnol – ffrind beirniadol.

Ffurfiwyd y gwasanaeth estynedig ym mis Ebrill 2019 ac mae wedi cael ei ailstrwythuro'n ddiweddar gydag ymgyrch recriwtio lwyddiannus wedi'i chwblhau i lenwi swyddi gwag yn y gwasanaeth.

Mae'r swydd hon yn sefyllfa hollbwysig o fewn y gwasanaeth a rennir, gan helpu partneriaid i gyflawni eu hamcanion trwy roi sicrwydd ar eu trefniadau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol a chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo llywodraethu corfforaethol da.

Mae'r rôl hon yn allweddol i helpu i ddatblygu gwasanaeth arloesol cryf ymhellach ac i fanteisio ar gyfleoedd masnachol posibl. Mae perthnasau gwaith rhagorol wedi'u datblygu ar draws y pedwar Cyngor a wasanaethir gan y Gwasanaeth ac mae'r swydd yn dod yn wag oherwydd ymddeoliad arfaethedig deiliad presennol y swydd.

Mae'r cyfle unigryw hwn yn cynnig cyflog cystadleuol ac amgylchedd gwaith hyblyg a fydd yn eich galluogi i dyfu a datblygu eich gyrfa.

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Matt Bowmer, Pennaeth Cyllid, Cyngor Bro Morgannwg [mbowmer@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:mbowmer@valeofglamorgan.gov.uk) neu ddeilydd presennol y swydd, Mark Thomas [cmthomas@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:cmthomas@valeofglamorgan.gov.uk)

Yn gywir,

*Matt Bowmer  
Pennaeth Cyllid  
Cyngor Bro Morgannwg*

*Carys Lord  
Prif Swyddog Cyllid,  
Perfformiad a Newid  
Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Pen-y-bont ar Ogwr*

*Steve Jones  
Prif Swyddog Cyllid  
Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Merthyr Tudful*

*Barrie Davies  
Cyfarwyddwr Cyllid a  
Gwasanaethau Digidol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon Taf*

